Gwybodaeth i bartneriaid

Stop It Now! WALES | CYMRU Helping prevent child sexual abuse

# Stop It Now! Cymru

## Yn cydweithio i atal cam-drin plant yn rhywiol

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae **Stop It Now! Cymru** wedi bod yn brysur yn gwneud adnoddau newydd i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â diweddaru'r rhai presennol, er mwyn sicrhau bod oedolion yn cael y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i atal cam-drin plant yn rhywiol.

Isod fe welwch ragor o wybodaeth am y rhain a'n sesiynau hyfforddi sydd ar y gweill, ac awgrymiadau ar sut i rannu gyda'ch rhwydweithiau er mwyn ein helpu ni i gadw plant yn ddiogel rhag niwed.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y pecynnau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni: **wales@stopitnow.org.uk**.

Er mwyn cadw ein gwefan a'n hadnoddau mor effeithiol â phosibl, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe byddech yn cwblhau'n harolwg byr. Mae'r arolwg yn gwbl gyfrinachol a bydd yn cymryd ychydig funudau i'w gwblhau. **Cliciwch yma i gwblhau'r arolwg**.

### Pwy ydym ni

Ers 2008, rydym wedi bod yn gweithio ledled Cymru gydag awdurdodau lleol, byrddau diogelu, heddluoedd, Llywodraeth Cymru, sefydliadau gwirfoddol, a theuluoedd a chymunedau i atal cam-drin plant yn rhywiol.

Mae ein llinell gymorth gyfrinachol Stop It Now!, ein gwasanaeth negeseuon diogel a sgwrs fyw yn rhoi lle cyfrinachol i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i drafod pryderon am gam-drin plant yn rhywiol. Rydym yn gweithio gydag oedolion sy'n poeni am:

- eu meddyliau neu eu hymddygiad eu hunain, oddi ar-lein ac ar-lein
- ymddygiad oddi ar-lein neu ar-lein oedolyn arall
- ymddygiad rhywiol oddi ar-lein neu ar-lein plentyn neu berson ifanc.

Ochr yn ochr â'n llinell gymorth, mae cannoedd o filoedd wedi defnyddio ein hadnoddau hunan-gymorth i gael help i reoli eu meddyliau a'u hymddygiad, ar-lein ac oddi ar-lein.

### Pam rydym angen eich help

Mae cam-drin rhywiol yn effeithio ar tua 1 o bob 6 o blant ledled y DU. Mae ein hadnoddau a'n hyfforddiant yn helpu rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i wybod beth y gallant ei wneud i amddiffyn plant rhag niwed. Gallwn eich cefnogi os oes gennych bryderon am oedolyn neu blentyn. Gallwn hefyd helpu os oes rhywbeth eisoes wedi digwydd. Mae codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau hyn yn hanfodol er mwyn amddiffyn plant rhag niwed ac atal pobl rhag troseddu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu ein hadnoddau a'n gwybodaeth gyda'ch rhwydweithiau eich hun fel bod gan gynifer o bobl â phosibl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gadw plant yn ddiogel.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod partneriaethau, cysylltwch â'n tîm: comms@stopitnow.org.uk.

## Ein hadnoddau ar gyfer rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol

### Taflenni 'Yr hyn y mae angen i bob un ohonom ei wybod'

Mae ein taflenni 'Yr hyn y mae angen i bob un ohonom ei wybod' yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am sut i amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol.  Mae ganddynt gyngor ar sut i atal niwed, sut i adnabod arwyddion rhybuddio, oedolion a phlant, a ble i fynd i gael rhagor o gymorth.

Mae rhai plant yn fwy agored i gam-drin rhywiol, gan gynnwys plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y rhai ag anawsterau dysgu (plant a rhieni) neu blant a phobl ifanc LGBTQ .  Dyna pam y buom yn gweithio gyda Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid (EYST), Anabledd Dysgu Cymru (LDW), a Stonewall Cymru i wneud y taflenni.

Maent ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan yn Gymraeg, Saesneg a 12 iaith arall ac mewn fformat hawdd ei ddeall.




### Canllaw atal ymddygiad rhywiol niweidiol

Mae tua un rhan o dair o gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei wneud gan blant dan 18 oed.  Dyna pam y gwnaethom ganllaw i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i helpu i ddeall sut mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn edrych mewn plant a phobl ifanc a sut i greu amgylchedd diogel i deuluoedd.

Mae'r canllaw ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.




### Ymchwiliadau cam-drin plant yn rhywiol: canllaw i rieni a gofalwyr

Mae ymchwiliad i gam-drin plant yn rhywiol posibl yn llawn straen i deuluoedd.  Mae ein canllaw yn cynnwys gwybodaeth ymarferol am yr hyn a fydd yn digwydd yn ystod ymchwiliad i'ch plentyn gael ei gam-drin yn rhywiol.

Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys adnoddau hunan-ofal a gwybodaeth i deuluoedd a phlant, i gefnogi a helpu'r rhai sy'n mynd drwy'r broses ymchwilio.

Darganfyddwch fwy a lawrlwythwch y daflen hon ar wefan Stop It Now! Cymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg.



## Rhaglen Addysgu Amddiffyn Rhieni

Mae'r rhain yn 12 ffilm fer i helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol. Fe'u cynlluniwyd ar gyfer rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i ddeall arwyddion rhybuddio posibl cam-drin oedolion a phlant, sut mae cam-drin yn digwydd, pam nad yw plant yn dweud am gamdriniaeth a beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon.

Mae'r fideos i'w gweld ar wefan Parents Protect ac maent ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Ein hyfforddiant

### Hyfforddi'r hyfforddwr

Mae'r sesiwn hwn yn dysgu cyfranogwyr i gyflwyno ein cyflwyniad "Parents Protect" i deuluoedd a rhieni, codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am y ffeithiau am gam-drin plant yn rhywiol a'i atal. Bydd y digwyddiad dwy ran yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i gyfranogwyr, gydag ymarferion a deunyddiau cyfredol, i ennill eu statws hyfforddwr.

Mae'r sesiynau hyn yn addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni neu ofalwyr.

Sesiynau sydd ar y gweill: 10 & 11 Ionawr 2022;
14 & 15 Chwefror 2022

am fwy o wybodaeth

archebwch le yn nawr

### Sesiynau addysg gyhoeddus

Mae ein sesiynau cyhoeddus yn cwmpasu ystod o bynciau ac yn addas ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys:

- rhieni a gofalwyr ar atal cam-drin plant yn rhywiol
- gweithwyr proffesiynol a diogelu mewn cyd-destunau gwahanol
- diogelwch ar y rhyngrwyd a gwydnwch digidol
- ymddygiad rhywiol niweidiol
- ymwybyddiaeth o ecsbloetiaeth rhywiol ar blant.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r sesiynau uchod, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â thîm Stop It Now! Cymru.

## Sut y gallwch ein helpu i gadw plant yn ddiogel

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu ein hadnoddau a'n gwybodaeth drwy eich rhwydweithiau eich hun fel bod gan gynifer o bobl â phosibl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gadw plant yn ddiogel.

**Enghraifft o negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol:**

Os ydych chi'n poeni am ymddygiad plentyn neu berson ifanc, rydyn ni yma i helpu. Mae llinell gymorth gyfrinachol @StopItNowCymru yn cynnig cymorth a chyngor heb feirniadaeth ar sut i gadw plant yn ddiogel. Ffoniwch 0808 1000 900 neu ewch i: https://bit.ly/3AANQmA

Ffoniwch linell gymorth gyfrinachol @StopItNowCymru os oes gennych unrhyw bryderon am gam-drin plant yn rhywiol a'i atal. Bydd eu cynghorwyr cyfeillgar yn rhoi cymorth heb feirniadaeth i chi. Ffoniwch 0808 1000 900 neu ewch i: https://bit.ly/3AANQmA

Nod taflenni newydd @StopItNowCymru 'Beth mae angen i bob un o'n gweithwyr ei wybod', yw rhannu gwybodaeth hanfodol gyda rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ar sut i gadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth rywiol. Darganfyddwch fwy https://bit.ly/3AANQmA

Mae gan @StopItNowCymru ganllaw i rieni a gofalwyr a all roi cyngor ymarferol ar yr hyn a fydd yn digwydd os bydd ymchwiliad i'w plentyn gael ei gam-drin yn rhywiol: https://bit.ly/3AANQmA

Mae cael sgyrsiau rhywiol gyda phobl dan 16 oed yn anghyfreithlon. Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn gweithredu'n anghyfreithlon ar-lein, mae help ar gael i stopio. Ffoniwch llinell gymorth gyfrinachol @StopItNowCymru ar 0808 1000 900 neu ewch i: https://bit.ly/3AANQmA

**Cylchlythyr neu gopi o'r wefan a awgrymir**:

Mae {Nodwch enw'r sefydliad} yn falch o gefnogi Stop It Now!Cymru yn eu nod o atal cam-drin plant yn rhywiol. Ers 2008, maent wedi bod yn gweithio ledled Cymru gyda sefydliadau lleol, gwirfoddol a statudol, yn ogystal â theuluoedd, er mwyn helpu i gadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth rywiol, ar-lein ac oddi ar-lein.

Mae gan Stop It Now! Cymru linell gymorth gyfrinachol, sydd ar gael i unrhyw un sydd â phryderon am gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys y rhai sy'n pryderu amdanynt eu hunain, y rhai sy'n poeni am oedolyn neu berson ifanc arall, gweithwyr proffesiynol sy'n chwilio am gyngor a rhieni sydd angen cymorth. Mae ganddynt hefyd sgwrs fyw, gwasanaeth negeseuon diogel a hunangymorth ar-lein di-enw.

Mae ganddynt amrywiaeth o adnoddau ar gyfer rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys taflenni ar yr hyn y mae angen i bob un o'n disgyblion ei wybod am gam-drin plant yn rhywiol, canllaw atal ymddygiad rhywiol niweidiol a gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd os oes ymchwiliad cam-drin rhywiol gyda'ch plentyn. Am fwy o wybodaeth ewch i: Stop It Now! Cymru neu ffoniwch 0808 1000 900.

Gallwch gysylltu â thudalen llinell gymorth Stop It Now! ar eich gwefan neu mewn unrhyw gylchlythyrau mewnol neu allanol. Os yw'n bosibl, gallech hefyd gynnwys datganiad o gefnogaeth i'r gwaith a wnawn i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, ar-lein ac oddi ar-lein.

## Llinell gymorth Stop It Now!

Mae ein llinell gymorth gyfrinachol Stop It Now! (0808 1000 900) yma i unrhyw un sy'n pryderu am gam-drin plant yn rhywiol a'i atal. Mae ein cynghorwyr profiadol yn cefnogi unrhyw un sy'n poeni am atal cam-drin plant yn rhywiol, a gall helpu gweithwyr proffesiynol sydd ag achosion penodol neu gyda gwybodaeth gyffredinol am ddiogelwch plant.

Stop It Now! UK & IRELAND
Helping prevent child sexual abuse

Rydym hefyd yn helpu unrhyw un sy'n pryderu am feddyliau, teimladau ac ymddygiad oedolyn neu berson ifanc arall tuag at blant, yn ogystal ag unrhyw un sy'n pryderu am blentyn neu berson ifanc. Gallwch ofyn am gael siarad â'n cynghorwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os nad ydych yn barod i siarad â rhywun eto, gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw neu negeseuon diogel.

## Grwpiau ymgynghori

Ydych chi'n rhiant, gofalwr neu'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni eraill? Oes gennych ddiddordeb yn ein helpu i ddatblygu ein gwaith ledled Cymru.

Rydym yn chwilio am gyfranogwyr i roi adborth i ni drwy grwpiau ffocws wedi'u targedu. Dyma gyfle i gwrdd â phobl o'r un meddylfryd a thrafod y ffordd orau o gadw plant yn ddiogel, ar-lein ac oddi ar-lein.

Cysylltwch a thîm Stop It Now! Cymru i gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru eich diddordeb.

## Cylchlythyr

I glywed mwy am ein gwaith cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr misol.

## Prosiect Ymyrraeth Gynnar

Mae'r rhaglen hon yn darparu ymyriad addysgol i deuluoedd y nodwyd eu bod mewn perygl neu'n agored i niwed gan wasanaethau statudol neu wirfoddol, ar gyfer cam-drin neu ecsbloetio plant yn rhywiol. Bydd teuluoedd yn dysgu sut i greu cynlluniau diogelwch teuluol a'r ffordd orau o amddiffyn plant a phobl ifanc, ar-lein ac oddi ar-lein.

I gael rhagor o wybodaeth am y sesiynau hyn, ewch i wefan Stop It Now!

Rydym yn croesawu adborth ar ein pecynnau partner newydd, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Stop It Now! Cymru
c/o NSPCC Cymru Wales, Ty Diane Engelhardt,
(Uned 2) Cwrt Treglown, Ffordd Dowlais,
Caerdydd, CF24 5LQ

Llinell gymorth gyfrinachol: 0808 1000 900

stopitnow.org.uk/wales
parentsprotect.co.uk
lucyfaithfull.org.uk

Facebook: facebook.com/stopitnowUKandireland
Twitter: @StopItNowWales
LinkedIn: The Lucy Faithfull Foundation
E-mail: wales@stopitnow.org.uk

THE LUCY FAITHFULL FOUNDATION
Working to protect children

Mae Sefydliad Lucy Faithfull yn Elusen Gofrestredig Rhif 1013025, ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant.

Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2729957. Swyddfa gofrestredig: 2 Birch House, Harris Business Park, Hanbury Road, Stoke Prior, Bromsgrove, B60 4DJ.